Mae'n bosib bod Sarn Helen wedi'i enwi ar ôl Elen Luyddawc, arwres o'r Mabinogion ac roedd yn heol Rufeinig bwysig yng Nghymru. Roedd yn dramwyfa ymerodrol bwysig ar gyrion y byd Rhufeinig ac yn ymestyn ar hyd y wlad, gan gysylltu caerau Rhufeinig, safleoedd milwrol ac aneddiadau eraill o Gastell-nedd (Nidum) yn y De i Gaernarfon (Segontium) yn y Gogledd. Mae rhan o'r heol yma, sy'n cysylltu'r caerau yng Nghastell-nedd a Choelbren yn croesi esgair Hirfynydd lle gall cerddwyr ddilyn yn ôl traed Milwyr Rhufeinig y ganrif gyntaf OC. Cerddwch o Aberdulais i olion Llety'r Afel Fach. Edrychwch yn ôl a mwynhewch yr olygfa dros Gastell-nedd a Bae Abertawe (gan gynnwys Dyfnaint ar ddiwrnod clir). Dringwch yn uwch eto a sylwch ar y waliau cerrig sych. Er bod yna lawer o ddifrod, mae'n dal i fod yn drawiadol iawn ac mae'n debyg bod y nodwedd hon yn dyddio o'r 19eg Ganrif hwyr. Ymhellach ar hyd y ffordd, mae Ffordd Sant Illtyd yn torri ar draws y llwybr. Yna, sylwch ar gaeadle a elwir yn aml yn 'Orsaf Rybuddio' er bod y llwybrau gweledol yn gyfyng iawn. Mae'r safle yma, sydd, yn ôl pob tebyg, yn Rufeinig, wedi tyfu'n wyllt yn dilyn cloddiadau yn 1986-7. Ymlaen eto i lle mae llwybr yn arwain i ffwrdd at Garn Cornel. Yna i dir mwy agored, a sticyll sy'n rhoi mynediad i gaeadle arall. Cymerwch funud neu ddwy i sawrir'r golygfeydd trawiadol pan yn symud

Helen of the roads,
The mountain ways of Wales
And the Mabinogion tales
Is one of the true gods.

(Allan o Roads gan Edward Thomas)




designed by design communication matrix T:01639 790 000 www.design-matrix.co.uk

Diolch yn arbennig i
Cwm Dulais Historical Society
a'r holl unigolion ymroddgar
a fu'n ymuneud â chynhyrchu'r daflen hon.

MILLENNIUM FESTIVAL


Partneriaeth Cwmdulais, Swyddfa Cofrestredig:
Yr Hen Gyfnewidfa Ffôn Teras Brynhyfryd, Blaendulais,
Castell Nedd SA10 9BA
Ffôn: 01639 701880 Ffacs: 01639 701126
e-bost: dulaisvalley@netscapeonline.co.uk

www.dulaisvalley.org



# Sarn Helen

## Taith Drwy'r Oesoedd



ymlaen at Gluyd Banwen. Treuliwch dipyn o amser yma yn mwynhau'r olygfa, sy'n edrych allan at Gaer Coelbren (neu Banwen Gaer fel y mae'r bobl leol yn ei galw) a Phen-y-fan yn y pellter. Gerllaw, mae yna efelychiadau o'r hyn a elwir yn 'Faenau Gnoll' (carreg Macaraidd Rhufain-Brydeinig o'r 6ed ganrif ac arni ysgrifen, a charreg Hirfynydd o tua'r 10fed ganrif), wedi'u gosod yn agos at y man gwreiddiol. Peidiwch â cholli'r cofarwydd gerllaw, sy'n enwi copaon awyrlin Bannau Brycheiniog. Ewch i lawr at dai teras yr Heol Rufeinig, Clos Banwen, mae Gweithdy Dove a Phrifysgol Gymunedol y Cymoedd yn darparu amrywiaeth ddyfeisgar o gyfleusterau addysgol. Yn agosach at yr A4109 sy'n rhedeg o fewn y cwm mae Tafarn y Banwen, lle (yn ôl chwedloniaeth), y ganwyd Sant Padrig. Tu hwnt i'r A4109 ac i'r dwyrain o Heol Camnant mae yna dystiolaeth o Faes Ymdeithio Rufeinig o ryw 35 erw. Yn syth ymlaen mae Caer Coelbren. Mae'r gaer, a adeiladwyd yn y 70au OC, yn 5.2 erw, sy'n ddigon i gynnal carfan o 500 o ddynion a marchfilwyr, o leiaf. Tra'i bod o ddiddordeb sylweddol, gofynnir i ymwelwyr barchu'r ffaith nad oes hawl mynediad at y safle Rhestredig yma (y mae'n bosib bod cnydau yn tyfu arno). Mae Sarn Helen yn parhau i'r gogledd-ddwyrain, i gaer ger Aberhonddu (Y Gaer) ac yna ymlaen at Caernarfon (Segontium).



Artist's impression of fort on site.

# sarn helen